**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Mynediad i gefn gwlad yn y DU: adolygiad o bolisi a deddfwriaeth cysylltiedig

Ebrill 2014

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @SeneddYmchwil
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/0198
Rhif dogfen:14/019

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Mynediad i gefn gwlad yn y DU: adolygiad o bolisi a deddfwriaeth cysylltiedig

Ebrill 2014

Katy Orford

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r mathau gwahanol o fynediad i gefn gwlad, yn rhoi cefndir i'r ddeddfwriaeth gysylltiedig, yn trafod polisi cysylltiedig ac yn tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng gwahanol wledydd y DU.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Miss Orford gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a alluogodd i'r papur hwn gael ei gwblhau.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

# Crynodeb

Mae mynediad i gefn gwlad yn y papur hwn yn cyfeirio at hawl y cyhoedd i gael mynediad at weithgareddau hamdden awyr agored, a chymryd rhan ynddynt, yn yr amgylchedd naturiol. Caiff hawliau tramwy, mynediad agored a mynediad caniataol eu trafod a'u cymharu rhwng gwledydd y DU.

Priffyrdd sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r cyhoedd deithio arnynt yw hawliau tramwy. O bedair gwlad y DU, Cymru sydd â'r darn mwyaf o hawliau tramwy fesul km sgwâr (1.59 km/km$^2$) yna Lloegr (1.46 km/km$^2$), yr Alban (0.19 km/km$^2$) a Gogledd Iwerddon (0.01 km/km$^2$). Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus gryn dipyn yn fwy yng Nghymru a Lloegr gan fod yr egwyddor "unwaith yn briffordd, bob amser yn briffordd" yn golygu mai cyfrifoldeb awdurdodau priffyrdd lleol yw cofnodi bodolaeth gyfreithiol a lleoliad y llwybrau hawliau tramwy os gellir dangos y'u defnyddir fel priffyrdd. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon nid yw hyn yn gymwys, ac felly ni ellir adennill hen lwybrau ar ôl cyfnod segur

Disgrifir mynediad i ardaloedd o dir a elwir yn 'dir mynediad' heb ddefnyddio llwybrau yn 'fynediad agored'. Mae graddau mynediad agored yn wahanol rhwng gwledydd y DU oherwydd gwahaniaethau yn y ddeddfwriaeth. Mae *Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003*[1] yn caniatáu mynediad am ddim i unrhyw le nad yw wedi'i eithrio'n benodol. Mae *Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*[2] yng Nghymru a Lloegr yn cyfyngu mynediad agored i ardaloedd penodol sydd wedi'u mapio. Yng Ngogledd Iwerddon nid oes hawl wedi'i ffurfioli o ran mynediad agored i dir heb ei amgáu. Er bod *Gorchymyn Mynediad i Gefn Gwlad (Gogledd Iwerddon) 1983*[3] yn cynnwys darpariaeth ar gyfer mynediad i dir agored, nid oes cytundebau na gorchmynion cysylltiedig wedi'u gwneud gan gynghorau dosbarth.

Mae mynediad caniataol hefyd yn bodoli ym mhob un o wledydd y DU lle gall tirfeddianwyr ganiatáu mynediad y cyhoedd i'w tir ar gyfer cerdded, beicio neu farchogaeth.

Mae'r papur ymchwil hwn yn crynhoi'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â mynediad i gefn gwlad ledled y DU. Cyflwynwyd nifer o bolisïau i hwyluso mynediad i gefn gwlad. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu hefyd. Ymhlith yr enghreifftiau mae llwybr arfordir Cymru, y fenter 'Paths for Communities' yn Lloegr, y fenter 'Paths for All' yn yr Alban ac ymdrechion y Forest Service yng Ngogledd Iwerddon i hwyluso mynediad i dir coediog.

[1] *Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003* (dsa 2) [fel ar 24 Ionawr 2014]
[2] *Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000* (Pennod 37) [fel ar 24 Ionawr 2014]
[3] *Gorchymyn Mynediad i Gefn Gwlad (Gogledd Iwerddon) 1983* (Rhif 1895) [fel ar 31 Ionawr 2014]

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad .......... 1**

**2. Cymru .......... 2**

2.1. Mathau o fynediad .......... 2
2.1.1. Hawliau tramwy .......... 2
2.1.2. Mynediad agored .......... 2
2.1.3. Mynediad caniataol .......... 3
2.2. Y gofynion presennol o ran deddfwriaeth .......... 3
2.2.1. Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 .......... 4
2.2.2. Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 .......... 5
2.2.3. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 .......... 6
2.2.4. Deddf Priffyrdd 1980 .......... 6
2.2.5. Deddf Cefn Gwlad 1968 .......... 6
2.2.6. Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 .......... 6
2.2.7. Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 .......... 7
2.2.8. Deddfwriaeth berthnasol arall .......... 7
2.3. Rhoi deddfwriaeth ar waith .......... 7
2.3.1. Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy .......... 7
2.3.2. Fforymau Mynediad Lleol .......... 7
2.3.3. Mapio .......... 8
2.3.4. Llwybrau Cenedlaethol .......... 8
2.4. Deddfwriaeth bosibl yn y dyfodol .......... 8
2.5. Polisi .......... 9
2.5.1. Mynediad i ddŵr mewndirol ac arfordirol .......... 9
2.5.2. Fforwm Mynediad Cenedlaethol .......... 9

**3. Lloegr .......... 10**

3.1. Mathau o fynediad .......... 10
3.2. Y gofynion presennol o ran deddfwriaeth .......... 10
3.2.1. Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 .......... 10
3.2.2. Gorchymyn Mynediad i Gefn Gwlad (Ymyl Arfordirol) (Lloegr) 2010 10
3.3. Rhoi deddfwriaeth ar waith .......... 11
3.3.1. Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy .......... 11
3.3.2. Fforymau Mynediad Lleol .......... 11
3.3.3. Mapio .......... 11
3.3.4. Llwybrau Cenedlaethol .......... 12
3.3.5. Mynediad i ddŵr mewndirol ac arfordirol .......... 12
3.4. Deddfwriaeth bosibl yn y dyfodol .......... 12
3.5. Polisi .......... 13
3.5.1. ‘Access to Nature’ .......... 13
3.5.2. Y Gweithgor Cenedlaethol 'Outdoors for All' .......... 13
3.5.3. ‘Paths for Communities’ .......... 14

**4. Yr Alban** .......... **15**

4.1. Mathau o fynediad .......... 15
4.2. Y gofynion presennol o ran deddfwriaeth .......... 15
4.2.1. Gorchymyn Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 (Addasu) 2013 .......... 16
4.2.2. Deddf Cefn Gwlad (yr Alban) 1967 .......... 16
4.2.3. Deddfwriaeth berthnasol arall .......... 16
4.3. Rhoi deddfwriaeth ar waith .......... 17
4.3.1. Cynlluniau Llwybrau Craidd .......... 17
4.3.2. Fforymau Mynediad .......... 17
4.3.3. 'Great Trails' yr Alban .......... 17
4.3.4. Mynediad i'r arfordir a dŵr mewndirol .......... 17
4.3.5. Cod ymddygiad .......... 18
4.4. Polisi .......... 18
4.4.1. Scottish Natural Heritage: strategaethau a blaenoriaethau .......... 18
4.4.2. 'Scottish Outdoor Access Network' .......... 18
4.4.3. Mapio .......... 19

**5. Gogledd Iwerddon** .......... **20**

5.1. Mathau o fynediad .......... 20
5.2. Y gofynion presennol o ran deddfwriaeth .......... 20
5.2.1. Gorchymyn Mynediad i Gefn Gwlad (Gogledd Iwerddon) 1983 .......... 20
5.2.2. Deddfwriaeth Atebolrwydd Meddianwyr .......... 21
5.2.3. Gorchymyn Gwasanaeth Ieuenctid a Hamdden (Gogledd Iwerddon) 1986 .......... 21
5.3. Rhoi deddfwriaeth ar waith .......... 21
5.3.1. Tir mynediad agored .......... 21
5.3.2. Mapio .......... 21
5.3.3. 'Waymarked Ways' .......... 21
5.3.4. Mynediad i'r arfordir a dŵr mewndirol .......... 22
5.4. Deddfwriaeth bosibl yn y dyfodol .......... 22
5.5. Polisi .......... 23
5.5.1. Strategaeth Datblygu Rhanbarthol .......... 23
5.5.2. Y Forest Service .......... 23

# 1. Cyflwyniad

Mae mynediad i gefn gwlad yn y papur hwn yn cyfeirio at hawl y cyhoedd i gael mynediad at weithgareddau hamdden awyr agored, a chymryd rhan ynddynt, yn yr amgylchedd naturiol. Mae hyn yn cynnwys mynediad i dir agored, tir comin cofrestredig a mynediad i'r arfordir yn ogystal â dyfrffyrdd mewndirol fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr. Trafodir mynediad gan gyfeirio at: hawliau tramwy (priffyrdd sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r cyhoedd deithio arnynt), mynediad agored (mynediad i ardaloedd o dir a elwir yn 'dir mynediad' heb ddefnyddio llwybrau) a mynediad caniataol (lle gall tirfeddianwyr ganiatáu mynediad i'r cyhoedd).

Mae deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â mynediad i gefn gwlad yn wahanol rhwng gwledydd y DU. Fel cymhariaeth fer, mae *Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003*[4] yr Alban yn caniatáu mynediad am ddim cyfrifol i unrhyw le nad yw wedi'i eithrio'n benodol. Mae deddfwriaeth o ran mynediad yng Nghymru a Lloegr yn fwy cyfyngol o'i gymharu, lle mae mynediad am ddim wedi'i gyfyngu i ardaloedd penodol sydd wedi'u mapio o dan *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*[5]. Yng Ngogledd Iwerddon, cyflwynwyd *Gorchymyn Mynediad i Gefn Gwlad (Gogledd Iwerddon) 1983*[6] ('*Gorchymyn Mynediad Gogledd Iwerddon*') i wella'r cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer mynediad awyr agored. Fodd bynnag, caiff ei gydnabod yn gyffredinol nad yw deddfwriaeth yng Ngogledd Iwerddon yn rhoi'r un lefel o fynediad a rhannau eraill o'r DU, [7] heb hawl wedi'i ffurfioli o fynediad agored i dir heb ei amgáu.

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r mathau gwahanol o fynediad i gefn gwlad, yn rhoi cefndir i'r ddeddfwriaeth gysylltiedig, yn trafod polisi cysylltiedig ac yn tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng gwahanol wledydd y DU.

---

[4] ***Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003*** (dsa 2) [fel ar 24 Ionawr 2014]
[5] ***Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*** (Pennod 37) [fel ar 24 Ionawr 2014]
[6] ***Gorchymyn Mynediad i Gefn Gwlad (Gogledd Iwerddon) 1983*** (Rhif 1895) [fel ar 31 Ionawr 2014]
[7] Cynulliad Gogledd Iwerddon, Papur Briffio'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth, **Access to the countryside in Northern Ireland – occupiers' liability** Rhagfyr 2012 [fel ar 24 Ionawr 2014]

# 2. Cymru

## *2.1. Mathau o fynediad*

### *2.1.1. Hawliau tramwy*

Priffyrdd sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r cyhoedd deithio arnynt yw hawliau tramwy. Yng Nghymru mae tua 33,000 km o hawliau tramwy cyhoeddus[8] (Tabl 1). Mae'r mathau o hawliau tramwy yn cynnwys:

- llwybrau troed - hawl tramwy ar droed yn unig;
- llwybrau ceffylau – ar gyfer cerddwyr, marchogion a beicwyr (y mae'n rhaid iddynt ildio i bobl ar droed neu ar gefn ceffyl);
- chilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig - ar agor i gerddwyr, beicwyr, marchogion, cerbydau a dynnir gan geffylau a cherbydau modur; a
- cilffyrdd cyfyngedig - gall roi hawl i bob math o draffig ac eithrio cerbydau modur. [9]

**Tabl 1: Hawliau tramwy cyhoeddus yn y DU**

| Gwlad | Cyfanswm yr arwynebedd (km2) | Hyd yr hawliau tramwy cyhoeddus (km) | Hyd yr hawliau tramwy cyhoeddus fesul km2 |
|---|---|---|---|
| Cymru | 20,767 | 33,000 | 1.59 |
| Lloegr | 130,373 | 190,000 | 1.46 |
| Yr Alban | 78,775 | 15,000 | 0.19 |
| Gogledd Iwerddon | 14,120 | 198 | 0.01 |

*Ffynhonnell: Scotland Natural Heritage (2001), gwefan Natural England, Llywodraeth Cymru (2013), Sport NI (2009), Encyclopedia of the Nations* [10,11,12,13,14].

### *2.1.2. Mynediad agored*

Gellir cael mynediad i rai ardaloedd o dir ledled Cymru heb orfod defnyddio llwybrau. Gelwir y tir hwn yn 'dir mynediad'. Mae tir mynediad yn cynnwys tir agored (mynydd, gweundir, rhostir a thwyndir), tir comin cofrestredig ac ardaloedd o goedwigoedd cyhoeddus penodedig (lle mae perchnogion fel Cyfoeth

---

[8] Llywodraeth Cymru ***Hawliau Tramwy*** [fel ar 11 Chwefror 2014]
[9] Llywodraeth Cymru ***Hawliau Tramwy*** *[fel ar 11 Chwefror 2014]*
[10] Scotland Natural Heritage ***Rights Of Way In Scotland*** [fel ar 29 Ionawr 2014]
[11] Natural England ***Types of Public Rights of Way*** [fel ar 29 Ionawr 2014]
[12] Llywodraeth Cymru ***Hawliau Tramwy*** [fel ar 29 Ionawr 2014]
[13] Sport NI, ***Bridging the Gap***, Mai 2009 [fel ar 24 Ionawr 2014]
[14] ***Encyclopedia of the Nations*** [fel ar 6 Chwefror 2014]

Naturiol Cymru yn caniatáu mynediad am ddim). Mae un rhan o bump o Gymru wedi'i mapio fel 'tir mynediad'.[15] Mae hyn yn cwmpasu 360,000 hectar o dir agored a thir comin cofrestredig (yn ogystal â 100,000 hectar o dir Cyfoeth Naturiol Cymru) ledled Cymru, y mae rhywfaint o'r tir o fewn y Parciau Cenedlaethol.[16] Mae gan bob un o'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru dir mynediad yn eu hardaloedd.[17]

Mae rhai gweithgareddau na ellir, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, eu gwneud ar dir mynediad, a gelwir y rhain yn 'gyfyngiadau cyffredinol'.[18] Maent yn cynnwys marchogaeth ceffylau, beicio, pysgota, gwersylla, mynd ag anifeiliaid heblaw am gŵn ar y tir, gyrru cerbydau a chwaraeon dŵr.

Nid yw dadansoddiad cymharol o'r ardal o dir mynediad rhwng gwledydd y DU yn bosibl fel gyda hawliau tramwy oherwydd y ddeddfwriaeth wahanol (a drafodir yn nes ymlaen).

### *2.1.3. Mynediad caniataol*

Gall rhai tirfeddianwyr ganiatáu i'r cyhoedd gael mynediad i'w tir ar gyfer cerdded, beicio neu farchogaeth. Gelwir hyn yn 'fynediad caniataol'. Gellir cyfyngu mynediad ar adegau penodol o'r flwyddyn, er enghraifft i ddiogelu adar sy'n nythu ar y ddaear. Mae gan dirfeddianwyr gyfrifoldeb gofal ar gyfer y rheini sy'n defnyddio mynediad caniataol ar eu tir. Nid ymdrinnir â mynediad caniataol yn y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*[19] ond mae darpariaethau'r gyfraith gyffredin yn gymwys. Gall rhai tirfeddianwyr ddod i gytundeb gydag awdurdod cyhoeddus i ganiatáu i'r cyhoedd gael mynediad i'w tir. Yn yr achosion hyn byddai telerau a chytundebau unrhyw gontract a lofnodwyd yn berthnasol. Un enghraifft o hyn yw cynlluniau amaeth-amgylchedd; mae Glastir yng Nghymru yn rhoi'r cyfle i dirfeddianwyr/ffermwyr perthnasol roimynediad caniataol i dir na fyddai modd mynd iddo fel arall, yn gyfnewid am dâl.[20]

## *2.2. Y gofynion presennol o ran deddfwriaeth*

Isod, ceir crynodeb o'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer Cymru o ran mynediad i gefn gwlad.

---

[15] Cyfoeth Naturiol Cymru ***Tir Mynediad Agored*** [fel ar 28 Ionawr 2014]
[16] Llywodraeth Cymru ***Mynediad i'r cefn gwlad a'r arfordir*** [fel ar 24 Ionawr 2014]
[17] Llywodraeth Cymru ***Gweithredu Darpariaethau Mynediad Newydd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*** [fel ar 10 Chwefror 2014]
[18] ***Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*** (Pennod 37) [fel ar 24 Ionawr 2014]
[19] ***Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*** (Pennod 37) [fel ar 24 Ionawr 2014]
[20] Papur ymchwil y Gwasanaeth Ymchwil 11/0329 ***Cyflwyniad i gynllun Glastir ac i gynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill yn y DU*** Chwefror 2011 [fel ar 11 Chwefror 2014]

### 2.2.1. Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

Yn dod i rym yng Nghymru ar 28 Mai 2005, *Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*[21] yw'r darn pwysicaf o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad yng Nghymru (a Lloegr).

Mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus, mae'r *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* yn cynnwys y gofynion allweddol a ganlyn:

- mae awdurdodau priffyrdd lleol yn gyfrifol am ddiogelu a chynnal a chadw hawliau tramwy, gan gynnwys cynnal yr arwyneb ac atal rhwystrau;
- mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol gyhoeddi 'Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy';
- mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol fapio hawliau tramwy ar Fapiau a Datganiadau Diffiniol; a
- caiff yr hawl statudol i wneud cais am orchmynion i ddileu neu ddargyfeirio rhai hawliau tramwy cyhoeddus yn barhaol, a'r hawliau cysylltiedig i apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol (Gweinidogion Cymru yng Nghymru) ei gwmpasu yn y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*.

Mae'r *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* yn cyflwyno hawl gyffredinol i'r cyhoedd gael mynediad ar droed i dir penodol, 'tir mynediad', ar gyfer hamdden awyr agored. Mae'r *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol sicrhau y darperir mynediad digonol gan dirfeddianwyr. O dan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*, mae 'tir mynediad' yn golygu unrhyw dir:

- y dangosir fel tir agored ar fap ar ffurf derfynol a gyhoeddwyd gan y corff cefn gwlad priodol (Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru);
- y dangosir ar fap o'r fath fel tir comin cofrestredig;
- y mae'n dir comin cofrestredig mewn unrhyw ardal y tu allan i ganol Llundain lle nad oes map o'r fath sy'n ymwneud â thir comin cofrestredig wedi'i gyhoeddi;
- y mae wedi'i leoli mwy na 600 metr uwchlaw lefel y môr mewn unrhyw ardal lle nad oes map o'r fath sy'n ymwneud â thir comin cofrestredig wedi'i gyhoeddi; neu
- y mae'n benodol at ddibenion y Rhan hon o dan adran 16. [22]

[21] ***Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*** (Pennod 37) [fel ar 24 Ionawr 2014]
[22] ***Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*** *(Pennod 37) [fel ar 24 Ionawr 2014]*

Ceir nifer o amgylchiadau lle mae tir a fyddai fel arall yn dir mynediad wedi'i eithrio ac nid yw hawliau mynediad yn gymwys. Mae hyn yn cynnwys tir mynediad:

- sy'n llai nag 20 metr oddi wrth gartrefi pobl;
- sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu bwyd; ac
- a ddefnyddir ar gyfer rheilffyrdd neu gyrsiau golff.

Gall tirfeddianwyr gau eu tir i'r cyhoedd am hyd at 28 diwrnod y flwyddyn, neu fwy os bydd angen, ar gyfer rheoli tir, atal tân neu ddiogelwch y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r tirfeddiannwr roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru neu, yn achos y Parciau Cenedlaethol, yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Gallant ystyried defnyddio technegau rheoli anffurfiol, fel arddangos hysbysiad yn gofyn i bobl osgoi ardal. Gall y tirfeddiannwr (neu'r tenant fferm) hefyd eithrio, yn ôl ei ddisgresiwn, cŵn o rosydd grugieir a reolir a llociau ŵyna.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol hefyd y pŵer i gyfyngu neu wahardd y cyhoedd rhag mynd ar dir at ddibenion cadwraeth natur a chadwraeth treftadaeth.

Mae'r *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod penodi ar gyfer unrhyw ardal i sefydlu ar gyfer yr ardal honno, neu ar gyfer pob rhan ohoni, corff cynghori a gaiff ei adnabod fel fforwm mynediad lleol. Mae'n rhaid i fforwm gynnwys aelodau sy'n cynrychioli:

- defnyddwyr tir mynediad lleol a hawliau tramwy lleol;
- meddianwyr a defnyddwyr tir mynediad a thir sydd â hawliau tramwy; a
- buddiannau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal.

Mae'r *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* yn diwygio *Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*, *Deddf Priffyrdd 1980*, *Deddf Cefn Gwlad 1968* a *Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949* (gweler isod).

### *2.2.2. Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*

Mae *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*[23] yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â swyddogaethau a gweithgareddau morol sy'n cynnwys llwybrau arfordirol a hawliau mynediad i dir ger yr arfordir. Yn wreiddiol roedd y Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i alluogi'r Cynulliad i gyflwyno Mesur Cynulliad sy'n cwmpasu:

- sefydlu a chynnal a chadw llwybr (neu nifer o lwybrau) ar gyfer yr arfordir i alluogi'r cyhoedd i wneud teithiau hamdden; a

[23] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** (Pennod 23) [fel ar 24 Ionawr 2014]

- sicrhau mynediad y cyhoedd i dir perthnasol at ddibenion hamdden awyr agored.[24]

Fodd bynnag, ers y refferendwm yn 2011 mae'r ddarpariaeth hon wedi bod yn segur gan fod gan y Cynulliad bellach y pŵer i gyflwyno Bil ar fynediad i'r arfordir pe byddai'n dymuno gwneud hynny. Mae'n bwysig nodi fod y llwybr arfordirol yng Nghymru wedi'i ddatblygu ar sail wirfoddol i raddau helaeth hyd yma.

### *2.2.3. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*

Mae *Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*[25] (fel y'i diwygiwyd gan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*) yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â chanfod hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'n darparu ar gyfer dyletswydd i adolygu Mapiau a Datganiadau Diffiniol yn barhaus ac ailddosbarthu'r ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer Gorchmynion i greu, dileu neu ddargyfeirio llwybrau troed a llwybrau ceffylau.

### *2.2.4. Deddf Priffyrdd 1980*

Mae *Deddf Priffyrdd 1980*[26] (fel y'i diwygiwyd gan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*) yn gorfodi dyletswyddau ynglŷn â hawliau tramwy, gan gynnwys creu llwybrau troed a llwybrau ceffylau a gosod arwyddion arnynt.

### *2.2.5. Deddf Cefn Gwlad 1968*

Mae *Deddf Cefn Gwlad 1968*[27] (fel y'i diwygiwyd gan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*) yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â mynediad i dir agored, gan gynnwys afonydd, camlesi a choetiroedd, gorchmynion mynediad i dir amaethyddol a chytundebau tir gan dirfeddianwyr (ac eraill) i atal troi tir yn dir a eithrir. Mae'r Ddeddf hefyd yn ymdrin â gosod arwyddion, camfeydd ac ati, ac aredig llwybrau troed a llwybrau ceffylau, diwygio llwybrau cyhoeddus a chaniatáu beicio ar lwybrau ceffylau.

### *2.2.6. Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949*

Mae'r *Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949*[28] (fel y'i diwygiwyd gan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*) yn gwneud darpariaeth ar gyfer cofnodi, creu, cynnal a chadw, gwella, dargyfeirio a chau llwybrau cyhoeddus, llwybrau ceffylau a phriffyrdd eraill. Mae 'llwybrau hirbell' ('Llwybrau Cenedlaethol' erbyn hyn) wedi'u dynodi o dan y Ddeddf. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer mynediad diogel i dir agored.

---

[24] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** (Pennod 23) [fel ar 24 Ionawr 2014]
[25] ***Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*** (Pennod 69) [fel ar 27 Ionawr 2014]
[26] ***Deddf Priffyrdd 1980*** (Pennod 66) [fel ar 27 Ionawr 2014]
[27] ***Deddf Cefn Gwlad 1968*** (Pennod 41) [fel ar 27 Ionawr 2014]
[28] ***Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949*** (Pennod 97) [fel ar 27 Ionawr 2014]

### *2.2.7. Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013*

*Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013*[29] a ddaeth i rym yng Nghymru ar 4 Tachwedd 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus, a pharatoi mapiau sy'n nodi'r llwybrau presennol a'r llwybrau posibl y gallant eu defnyddio yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn ystod y cam dylunio.

### *2.2.8. Deddfwriaeth berthnasol arall*

- *Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006*[30];
- *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*[31];
- *Deddf Llwybrau Beiciau 1984*[32];
- *Deddf Rhandiroedd 1950*[33]; a
- *Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908*[34].

## *2.3. Rhoi deddfwriaeth ar waith*

### *2.3.1. Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy*

Fel y nodwyd uchod, mae'r *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* yn ei gwneud yn ddyletswydd ar bob awdurdod priffyrdd yng Nghymru i gyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. [35] Cwblhawyd 23 o Gynlluniau sy'n cwmpasu Cymru ac sy'n nodi'r cynlluniau strategol ar gyfer ardal pob awdurdod sy'n nodi anghenion, blaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer gwella'r mynediad i gefn gwlad. [36]

### *2.3.2. Fforymau Mynediad Lleol*

Ceir 29 o Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru sydd wedi'u sefydlu (o dan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*) i roi cyngor i awdurdodau lleol (gan gynnwys awdurdodau priffyrdd lleol, neu'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) a Cyfoeth Naturiol Cymru ar wella mynediad y cyhoedd i dir yn eu hardal. Mae'r Fforymau'n cadw mewn cysylltiad â'i gilydd drwy gyfarfod blynyddol y Cadeiryddion, a'r Gynhadledd Flynyddol. [37] Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael adroddiadau blynyddol gan bob Fforwm.

---

[29] **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013** (dccc 7) [fel ar 3 Ebrill 2014]
[30] ***Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006*** (Pennod 16) [fel ar 28 Ionawr 2014]
[31] ***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*** (Pennod 8) [fel ar 11 Chwefror 2014]
[32] ***Deddf Llwybrau Beiciau 1984*** *(Pennod 38) [fel ar 27 Ionawr 2014]*
[33] ***Deddf Rhandiroedd 1950*** (Pennod 31) [fel ar 27 Ionawr 2014]
[34] ***Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908*** (Pennod 36) [fel ar 27 Ionawr 2014]
[35] Cyfoeth Naturiol Cymru ***Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy a chyllid*** [fel ar 28 Ionawr 2014]
[36] Cyfoeth Naturiol Cymru ***Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy a chyllid*** [fel ar 28 Ionawr 2014]
[37] Cyfoeth Naturiol Cymru ***Fforymau Mynediad Lleol*** [fel ar 30 Ionawr 2014]

### 2.3.3. *Mapio*

Yng Nghymru mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar awdurdodau priffyrdd lleol i gofnodi bodolaeth gyfreithiol a lleoliad hawliau tramwy ar Fap a Datganiad Diffiniol o dan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*.[38] At hynny, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda thirfeddianwyr, tenantiaid a phartïon eraill sydd â diddordeb i lunio mapiau cywir o'r holl dir mynediad agored. Mae'n rhaid adolygu'r mapiau mynediad agored hyn bob deng mlynedd o leiaf.[39] Mae adolygiad yn mynd rhagddo a disgwylir i fap terfynol Cymru gyfan gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2014. Cyhoeddwyd map drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2012.[40]

### 2.3.4. *Llwybrau Cenedlaethol*

Cyflwynodd *Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949* y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer Llwybrau Cenedlaethol (a ddiwygiwyd gan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*). Mae Llwybrau Cenedlaethol yn llwybrau hirbell sy'n caniatáu i'r cyhoedd wneud teithiau ar droed, ar gefn ceffyl neu ar feic.[41] Mae tri yn bodoli yng Nghymru; Llwybr Glyndŵr (213 km), Llwybr Clawdd Offa (283 km) a Llwybr Arfordir Sir Benfro (299 km). Mae cyrff amrywiol yn cynnal a chadw'r llwybrau, gan gynnwys yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, awdurdodau priffyrdd lleol a gwirfoddolwyr gyda chyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 2.4. *Deddfwriaeth bosibl yn y dyfodol*

Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o ddeddfwriaeth a chanllawiau presennol sy'n ymwneud â mynediad a hamdden awyr agored.[42] Nod Llywodraeth Cymru yw:

> ... sicrhau gwell mynediad i diroedd awyr agored ar gyfer hamddena drwy foderneiddio a symleiddio'r fframwaith rheoleiddiol cyfredol, a darparu eglurder a sicrwydd o ran lle gall pobl fynd ac i wneud beth. Bydd hyn yn ein galluogi [Llywodraeth Cymru] i fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu er mwyn gwella mynediad i diroedd awyr agored a deddfu ar gyfer faint o dir sydd ar gael ar gyfer rhandiroedd.[43]

---

[38] Cyfoeth Naturiol Cymru ***Mapiau Diffiniol*** [fel ar 30 Ionawr 2014]
[39] Cyfoeth Naturiol Cymru ***Tir Mynediad Agored*** [fel ar 11 Chwefror 2014]
[40] Cyfoeth Naturiol Cymru ***Tir Mynediad Agored*** [fel ar 11 Chwefror 2014]
[41] Llwybrau Cenedlaethol ***The National Trails*** [fel ar 11 Chwefror 2014]
[42] Llywodraeth Cymru ***Adolygiad o Ddeddfwriaeth Mynediad a Hamdden Awyr Agored*** [fel ar 27 Ionawr 2014]
[43] Llywodraeth Cymru ***Adolygiad o Ddeddfwriaeth Mynediad a Hamdden Awyr Agored*** [fel ar 27 Ionawr 2014]

Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar dri phrif faes: 1) cynyddu mynediad i'r awyr agored mewn ardaloedd trefol a gwledig; 2) gwella'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus; 3) cynyddu faint o dir sydd ar gael ar gyfer rhandiroedd a garddio cymunedol. Disgwyliwyd i'r ymgynghoriad ar y papur gwyrdd gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2013[44] ond mae wedi'i ohirio.

## *2.5. Polisi*

### *2.5.1. Mynediad i ddŵr mewndirol ac arfordirol*

Cafodd Llwybr Arfordir Cymru[45], llwybr di-dor 1400 km o amgylch Cymru, ei gwblhau a'i agor ar 5 Mai 2012. Roedd yn rhan o Raglen Gwella Mynediad i'r Arfordir, Llywodraeth Cymru, sydd wedi buddsoddi mewn gwelliannau o ran mynediad o amgylch arfordir Cymru ers 2007 drwy Cyfoeth Naturiol Cymru (fel y mae nawr).

Nid yw'r hawliau mynediad a osodwyd yn y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* yn cynnwys mynediad i ddŵr mewndirol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn annog mynediad i ddŵr drwy gronfa Sblash (Cronfa Her Gweithgareddau Hamdden Dŵr Cymru). Mae'r gronfa, a sefydlwyd yn 2008 ac a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn darparu cyllid i sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gynnig mwy o gyfleoedd hamdden yn llynnoedd, afonydd, camlesi, cronfeydd dŵr ac ar arfordir Cymru. Roedd cyllid gwerth £460,000 ar gael yn 2013/14.[46]

### *2.5.2. Fforwm Mynediad Cenedlaethol*

Yn ogystal â'r Fforymau Mynediad Lleol, mae gan Gymru Fforwm Mynediad Cenedlaethol hefyd.[47] Yn wahanol i'r Fforymau Mynediad Lleol, nid yw'n statudol ac ni all unigolion wneud cais am aelodaeth; yn hytrach, mae aelod-sefydliadau'n enwebu cynrychiolwyr. Mae Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o dirfeddianwyr a rheolwyr, grwpiau defnyddwyr mynediad i gefn gwlad, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r sector gwirfoddol i drafod materion o ran mynediad i gefn gwlad yng Nghymru. Mae'n rhoi cyngor i Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweinyddu ac yn cadeirio'r fforwm.

[44] Llywodraeth Cymru ***Adolygiad o Ddeddfwriaeth Mynediad a Hamdden Awyr Agored*** [fel ar 27 Ionawr 2014]
[45] Cyfoeth Naturiol Cymru ***Llwybr Arfordir Cymru*** [fel ar 11 Chwefror 2014]
[46] Cyfoeth Naturiol Cymru ***Cynllun cyllid grant Sblash*** [fel ar 12 Chwefror 2014]
[47] Cyfoeth Naturiol Cymru ***Fforwm Mynediad Cenedlaethol*** [fel ar 7 Chwefror 2014]

# 3. Lloegr

## *3.1. Mathau o fynediad*

Mae gan y cyhoedd yr un hawliau sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad yn Lloegr fel yng Nghymru gyda rhai eithriadau (a nodir isod). Mae gan y cyhoedd yn Lloegr fynediad i tua 190,000 km o hawliau tramwy[48] (Tabl 1), 865,000 hectar o dir mynediad agored[49] (gan gynnwys 156,000 hectar o dir y Comisiwn Coedwigaeth)[50] yn ogystal â hawliau mynediad caniataol. [51]

## *3.2. Y gofynion presennol o ran deddfwriaeth*

Mae'r ddeddfwriaeth yn Lloegr i raddau helaeth yn adlewyrchu'r hyn a amlinellwyd uchod ar gyfer Cymru (yn hanesyddol mae deddfwriaeth wedi'i chreu ar sail Cymru a Lloegr). Yn unol â hynny, y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* yw'r ddeddfwriaeth fwyaf arwyddocaol o ran mynediad i gefn gwlad yn Lloegr.

### *3.2.1. Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*

Mae'r ddeddfwriaeth o ran mynediad o dan *Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*[52] yn wahanol yn Lloegr i'r hyn a geir yng Nghymru fel y soniwyd eisoes. O dan y Ddeddf, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Natural England ddyletswydd i sicrhau llwybr cerdded hirbell o amgylch arfordir Lloegr, ynghyd ag ymyl cysylltiedig o dir hygyrch, i bobl ei ddefnyddio at ddibenion hamdden awyr agored. [53]

### *3.2.2. Gorchymyn Mynediad i Gefn Gwlad (Ymyl Arfordirol) (Lloegr) 2010*[54]

Mae adran 303 o *Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* yn cynnwys darpariaeth i greu Gorchymyn i ddiwygio'r hawl mynediad cyhoeddus a ddarperir o dan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* i fod yn gymwys i'r tir arfordirol yn Lloegr. Cymeradwywyd y Gorchymyn drafft gan y ddau Dŷ ar 24 Chwefror 2010.

---

[48] Natural England ***Types of public rights of way*** [fel ar 5 Chwefror 2014]
[49] Cyfoeth Naturiol Cymru ***Open Access Land*** [fel ar 28 Ionawr 2014]
[50] Mae hyn yn golygu bod 6.5% o Loegr yn dir mynediad agored (o gymharu â 20% yng Nghymru).
[51] Llywodraeth y DU ***Diogelu a gwella mwynhad pobl o gefn gwlad*** [fel ar 5 Chwefror 2014]
[52] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** (Pennod 23) [fel ar 24 Ionawr 2014]
[53] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** (Pennod 23) [fel ar 24 Ionawr 2014]
[54] ***Gorchymyn Mynediad i Gefn Gwlad (Ymyl Arfordirol) (Lloegr) 2010*** Rhif 558 [fel ar 18 Chwefror 2014]

## *3.3. Rhoi deddfwriaeth ar waith*

### *3.3.1. Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy*

Fel yng Nghymru, mae'n ddyletswydd, o dan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*, i bob awdurdod priffyrdd lleol yn Lloegr lunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo yn Lloegr. Fel prosiect enghreifftiol yn ne-ddwyrain Lloegr, mae Cyngor Sir Hampshire yn llunio cynlluniau ar gyfer Coedwigoedd Bere ac Eversley, gan ganolbwyntio ar ddefnydd marchogol.[55]

### *3.3.2. Fforymau Mynediad Lleol*

Mae gan Loegr 83 o Fforymau Mynediad Lleol.[56] Mae gan Natural England gyfrifoldebau a nodir yn y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* i dderbyn adroddiadau blynyddol gan bob Fforwm. Mae'r adroddiad mwyaf diweddar[57] ar gyflawniadau'r Fforymau yn Lloegr, yn cynnwys manylion am ymgynghoriadau lleol o ran gorchmynion priffyrdd, y rhwydwaith a'r prosiectau ar hawliau tramwy cyhoeddus, mynediad pobl anabl, gorchmynion gatio a strategaethau seilwaith gwyrdd. Roedd ymgynghoriadau cenedlaethol yn cynnwys y Llwybr Mynediad Arfordirol Cenedlaethol, Cynlluniau Partneriaeth y Parc Cenedlaethol, ymgynghoriad y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol ac ymgynghoriadau'r Ystâd Coedwig Gyhoeddus. Yn wahanol i Gymru, nid oes Fforwm Mynediad Cenedlaethol yn Lloegr.

### *3.3.3. Mapio*

Fel yng Nghymru, mae'n gyfrifoldeb cyfreithiol o dan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* i awdurdodau priffyrdd lleol yn Lloegr gofnodi hawliau tramwy ar Fap a Datganiad Diffiniol. Mae Natural England (fel Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru) wedi llunio mapiau terfynol o Loegr y tu allan i ganol Llundain i ddangos yr holl dir comin cofrestredig a thir agored, dyletswydd statudol o dan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*. Fel yng Nghymru mae'n ofynnol adolygu'r mapiau hyn. Mae'r Rheoliadau a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2013 yn Lloegr wedi gohirio'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r adolygiad cyntaf o'r mapiau terfynol bum mlynedd o dan adran 10 o'r *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*.[58] Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r wyth map terfynol sy'n cwmpasu Lloegr gael eu hadolygu erbyn 2019 a 2020.

---

[55] Natural England ***Rights of Way Improvement Plans*** [fel ar 11 Chwefror 2014]
[56] Natural England **LAFs** [fel ar 7 Chwefror 2014]
[57] Natural England ***Local Access Forum Annual Report 2011/2012*** [fel ar 30 Ionawr 2014]
[58] Natural England ***CROW Map Review Project*** [fel ar 7 Chwefror 2014]

### 3.3.4. Llwybrau Cenedlaethol

Heddiw mae 13 o Lwybrau Cenedlaethol yn Lloegr gyda Natural England yn talu am y gwaith cynnal a chadw.[59] Pennine Way oedd y llwybr cyntaf, a agorodd yn 1965.[60] Fel yng Nghymru, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i gynnal a chadw'r llwybrau.

### 3.3.5. Mynediad i ddŵr mewndirol ac arfordirol

Mae'r gwaith o greu Llwybr Arfordir Lloegr yn mynd rhagddo. Yn Lloegr, mae hyn yn ddyletswydd (o dan adran 296 o *Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*) ar yr Ysgrifennydd Gwladol a Natural England (tra yng Nghymru gweithredir y llwybr drwy ddull anneddfwriaethol). Ar ôl ei gwblhau, Llwybr Arfordir Lloegr fydd yr hwyaf o'r Llwybrau Cenedlaethol yn Lloegr yn 4,400 km.[61] Daw'r hawliau mynediad newydd i rym ar wahanol adegau o gwmpas yr arfordir, er eu bod eisoes ar waith ar hyd darn o'r arfordir yn Weymouth.[62] Mae alinio'r llwybr yn weithgarwch ar y cyd rhwng Natural England, cynghorau sir, tirfeddianwyr a meddianwyr.

Fel yng Nghymru, nid yw hawliau mynediad o dan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* yn cynnwys mynediad i ddŵr mewndirol.

## 3.4. Deddfwriaeth bosibl yn y dyfodol

Un o nodau'r *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* oedd mynd i'r afael ag anghyflawnder y Mapiau Diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus a oedd yn bodoli gynt. Mae'r *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* yn darparu ar gyfer dyddiad terfyn yn 2026 fel bod hawliau tramwy cyhoeddus cyn 1949 sydd heb eu cofnodi yn dod i ben os na chânt eu hychwanegu i'r mapiau erbyn y dyddiad hwn. Mae Natural England wedi dadlau bod y rhagolygon o gyflawni hyn yn llwm fel y saif pethau, oherwydd natur hirfaith a chymhleth y prosesau cofnodi.[63]

O ganlyniad i hyn, sefydlwyd Gweithgor Rhanddeiliaid gan Natural England i wneud argymhellion i wella'r sefyllfa ynghylch hawliau tramwy hanesyddol.[64] Ymgorfforwyd yr argymhellion allweddol o'r adroddiad yn y Bil Dadreoleiddio drafft[65] a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013 sy'n cynnwys cymalau sy'n canolbwyntio ar wella'r ddeddfwriaeth a'r broses sy'n ymwneud â hawliau tramwy hanesyddol.

---

[59] Llwybrau Cenedlaethol ***The National Trails*** [fel ar 12 Chwefror]
[60] Llwybrau Cenedlaethol ***The National Trails*** [fel ar 12 Chwefror]
[61] Llwybrau Cenedlaethol ***England Coast Path*** [fel ar 11 Chwefror 2014]
[62] Natural England ***Coastal Access*** [fel ar 5 Chwefror 2014]
[63] Adroddiad a gomisiynwyd gan Natural England NECR035 Stepping Forward, ***The Stakeholder Working Group on Unrecorded Public Rights of Way: Report to Natural England*** Mawrth 2010 [fel ar 30 Ionawr 2014]
[64] Natural England ***Stakeholder Working Group on Unrecorded Rights of Way*** [fel ar 7 Chwefror 2014]
[65] ***Bil Dadreoleiddio Drafft*** Cm **8642** 1 Gorffennaf 2013 [fel ar 30 Ionawr 2014]

## *3.5. Polisi*

Yn Lloegr, mae nifer o fentrau polisi i wella cyfleoedd ar gyfer mynediad i gefn gwlad i holl aelodau'r gymuned, gyda ffocws ar bobl sydd dan anfantais.

### *3.5.1. 'Access to Nature'*

Mae 'Access to Nature' yn gynllun gan Natural England sydd wedi'i ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr gyda'r nod o annog mwy o bobl i fwynhau'r awyr agored, gan ganolbwyntio ar y rheini sy'n wynebu allgáu cymdeithasol neu'r rheini sydd heb lawer o gysylltiad, os o gwbl, gyda'r amgylchedd naturiol. [66] Un o'r amcanion yw buddsoddi mewn mynediad i leoedd a rhwydweithiau naturiol rhwng safleoedd a gweithgareddau cysylltiedig, ac mae'n cynnwys:

- darparu seilwaith gwyrdd e.e. llwybrau aml-ddefnydd, llwybrau beicio, llwybrau, llwybrau pren ac ati;
- creu, rheoli neu hyrwyddo lonydd glas, coridorau gwyrdd a chysylltiadau mynediad rhwng safleoedd;
- prynu tir (lle nad oes unrhyw ffordd arall o sicrhau safle ar gyfer defnydd/mynediad cyhoeddus);
- cysylltiadau trafnidiaeth gwyrdd; a
- darparu mynediad newydd. [67]

### *3.5.2. Y Gweithgor Cenedlaethol 'Outdoors for All'*

Mae'r Gweithgor Cenedlaethol 'Outdoors for All' wedi'i sefydlu gan Natural England, gan ddwyn ynghyd defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau er budd cymunedau i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cael mynediad i gefn gwlad.[68] Sefydlwyd y grŵp hwn yn dilyn y canlyniadau o'r Adolygiad Amrywiaeth (2005)[69] a oedd yn dangos bod rhai pobl yn llai tebygol o ddefnyddio'r amgylchedd naturiol. Mae'r grŵp yn comisiynu astudiaethau i gasglu tystiolaeth o'r gofyniad a'r blaenoriaethau ar gyfer mynediad i'r amgylchedd naturiol, a'r rhwystrau i fynediad. Mae hefyd yn dylunio prosiectau arloesol i wella'r ddarpariaeth o'r gwasanaethau mynediad presennol neu i ddarparu gwasanaethau newydd.

---

[66] Natural England **Access to Nature** [fel ar 11 Chwefror 2014]
[67] Natural England ***Access to Nature Outcomes and targets*** [fel ar 17 Chwefror 2014]
[68] Natural England ***Outdoors for all*** [fel ar 30 Ionawr 2014]
[69] Natural England, ***Research carried out by the diversity review*** [fel ar 5 Chwefror 2014]

### *3.5.3. 'Paths for Communities'*

Roedd y fener 'Paths for Communities'[70] yn rhan o Adolygiad o Dwf yr Economi Wledig, Llywodraeth y DU,[71] a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011. Agorwyd cronfa grant gwerth £2 miliwn ar gyfer ceisiadau gan gymunedau lleol gyda'r nod o ddatblygu a gwella'r rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus i sicrhau manteision i ardaloedd gwledig yn Lloegr.[72]

---

[70] Natural England ***Paths for Communities*** [fel ar 7 Chwefror 2014]
[71] Defra ***Rural Economy Growth Review*** [fel ar 30 Ionawr 2014]
[72] Defra ***Paths for Communities*** [fel ar 7 Chwefror 2014]

# 4. Yr Alban

## *4.1. Mathau o fynediad*

Mae mynediad agored sy'n sylweddol fwy ffurfiol yn yr Alban o gymharu â Chymru a Lloegr. Caiff mynediad am ddim ei ganiatáu yn unrhyw le nad yw wedi'i eithrio'n benodol, ar yr amod y dangosir ymddygiad cyfrifol, o dan *Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003*[73]. Yng Nghymru a Lloegr caiff mynediad am ddim ei gyfyngu i ardaloedd penodol sydd wedi'u mapio o dan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*. Mae gan yr Alban rwydwaith o hawliau tramwy sy'n sylweddol llai (15,000km) nag yng Nghymru a Lloegr (Tabl 1) gan fod yr egwyddor "unwaith yn briffordd, bob amser yn briffordd" sydd yno yn golygu y gellir ychwanegu llwybrau i'r map os gellir dangos y'u defnyddir fel priffyrdd. Yn yr Alban nid yw hyn yn gymwys ac felly ni ellir adennill hen lwybrau ar ôl cyfnod segur.

## *4.2. Y gofynion presennol o ran deddfwriaeth*

### *Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003*

Y *Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban)*[74] a *Chod Mynediad Awyr Agored yr Alban*[75] cysylltiedig yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â mynediad i awyr agored yn yr Alban. Daeth yr hawl mynediad statudol cysylltiedig i rym ar 9 Chwefror 2005.

Mae rhan 1 o'r *Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban)* yn sefydlu hawliau mynediad statudol cyhoeddus i dir a dŵr mewndirol ar gyfer gweithgareddau hamdden, addysgol ac eraill. Mae'r hawliau'n benodol yn eithrio unrhyw fath o weithgarwch modur (oni bai ei fod ar gyfer mynediad i bobl anabl), hela, saethu a physgota.

Mae'r hawliau'n gymwys ledled yr Alban gan gynnwys ardaloedd trefol, bryniau, tir amaethyddol, coedwigoedd, traethau, camlesi, llychau ac afonydd. Fodd bynnag, nid yw'r hawliau mynediad yn berthnasol o fewn adeiladau, strwythurau na'u hamgylchedd uniongyrchol, tai a gerddi, a thir ar gyfer cnydau (nid ystyrir fod glaswellt yn gnwd oni bai ei fod yn tyfu ar gyfer gwair/silwair), er y caniateir mynediad i ymylon caeau.

Mae pwyslais rhan 1 o'r *Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban)* ar reoli mynediad ar lefel leol gan roi pwerau i awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i reoli mynediad yn eu hardal. Mae'r *Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban)* yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu Fforymau Mynediad Lleol. Mae'r *Ddeddf* yn nodi y gall awdurdodau mynediad (awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parciau

---

[73] ***Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003*** (dsa 2) [fel ar 24 Ionawr 2014]
[74] ***Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003*** (dsa 2) [fel ar 24 Ionawr 2014]
[75] **Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban** [fel ar 24 Ionawr 2014]

Cenedlaethol) eithrio ardal benodol o dir a/neu ddŵr mewndirol o hawliau mynediad dros dro drwy orchymyn adran 11.

Mae'r Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban) yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i lunio cynllun ar gyfer system o lwybrau ('llwybrau craidd') sy'n ddigonol at y diben o roi mynediad rhesymol i'r cyhoedd yn eu hardal.

### *4.2.1. Gorchymyn Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 (Addasu) 2013*

Daeth *Gorchymyn Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 (Addasu) 2013*[76] i rym ar 20 Rhagfyr 2013. Mae'r Gorchymyn yn diwygio'r *Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban)* i ddarparu ar gyfer eithrio llwybrau craidd o hawliau mynediad dros dro. Mae'r amgylchiadau lle mae'r gorchymyn drafft yn gymwys fel a ganlyn:

- os bydd achos o glefyd anifeiliaid; a
- lle gofynnir am eithriadau o hawliau mynediad o dan orchmynion adran 11.

### *4.2.2. Deddf Cefn Gwlad (yr Alban) 1967*

*Deddf Cefn Gwlad (yr Alban) 1967*[77] (a ddiwygiwyd gan y *Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban)*) oedd yr ymgais gyntaf i wneud darpariaethau cyfreithiol ar gyfer mynediad i gefn gwlad yn yr Alban. Mae'n darparu ar gyfer sefydlu Comisiwn Cefn Gwlad ar gyfer yr Alban (Scottish Natural Heritage erbyn hyn) ac ar gyfer gwella cyfleusterau hamdden ac eraill. Ei nod yw ehangu pwerau'r awdurdodau cynllunio lleol o ran tir yn eu hardaloedd. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i arddel, diogelu a chadw unrhyw hawl tramwy cyhoeddus ar agor ac yn rhydd o unrhyw rwystrau neu dresmasu, ac i wneud darpariaeth ariannol mewn perthynas â'r materion uchod. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer llwybrau hirbell ('Great Trails' yr Alban erbyn hyn).

### *4.2.3. Deddfwriaeth berthnasol arall*

- *Deddf Cadwraeth Natur (yr Alban) 2004*[78]
- *Deddf Parciau Cenedlaethol (yr Alban) 2000*[79]
- *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (yr Alban) 1997*[80]
- *Deddf Dŵr (yr Alban) 1980*[81]
- *Deddf Atebolrwydd Meddianwyr (yr Alban) 1960*[82]

---

[76] ***Gorchymyn Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 (Addasu) 2013*** [fel ar 18 Chwefror 2014]
[77] ***Deddf Cefn Gwlad (yr Alban) 1967*** (Pennod 86) [fel ar 29 Ionawr 2014]
[78] ***Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003*** (dsa 6) [fel ar 30 Ionawr 2014]
[79] ***Deddf Parciau Cenedlaethol (yr Alban) 2000*** (dsa 10) [fel ar 30 Ionawr 2014]
[80] ***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (yr Alban) 1997*** (Pennod 8) [fel ar 29 Ionawr 2014]
[81] ***Deddf Dŵr (yr Alban) 1980*** (Pennod 45) [fel ar 29 Ionawr 2014]
[82] ***Deddf Atebolrwydd Meddianwyr (yr Alban) 1960*** (Pennod 30) [fel ar 29 Ionawr 2014]

## *4.3. Rhoi deddfwriaeth ar waith*

### *4.3.1. Cynlluniau Llwybrau Craidd*

'Llwybrau craidd' yw'r fframwaith sylfaenol ar gyfer prif lwybrau sy'n clymu'r 'rhwydwaith llwybrau ehangach' yn yr Alban gyda'i gilydd. Mae gan bob awdurdod mynediad ddyletswydd o dan y *Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban)* i lunio Cynllun Llwybrau Craidd[83] yn ei ardal er mwyn hwyluso hawliau mynediad. Yn wahanol i'r *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*, nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i wella, hyrwyddo na chynnal a chadw llwybrau craidd, dim ond i wneud cynllun. Mewn rhai lleoedd mae Grwpiau Llwybrau Cymunedol wedi'u ffurfio i wella a chynnal a chadw llwybrau lleol.

### *4.3.2. Fforymau Mynediad*

Yn debyg i Gymru a Lloegr, mae Fforymau Mynediad Lleol yn rhoi cyngor a chymorth i'r awdurdod mynediad gyda'u dyletswyddau a'u swyddogaethau yn yr Alban, dyletswydd o dan y *Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban)*. Mae gan bob awdurdod mynediad o leiaf un fforwm ar gyfer ei ardal. Caiff aelodau'r fforymau mynediad lleol hyn eu penodi gan awdurdodau mynediad y mae'n ofynnol iddynt sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli tir a buddiannau hamdden ar bob fforwm.[84]

### *4.3.3. 'Great Trails' yr Alban*

Yn debyg i'r Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr, mae 'Great Trails' yr Alban yn llwybrau hirbell a hyrwyddir yn genedlaethol o dan y *Ddeddf Cefn Gwlad (yr Alban) 1967*. Mae gan bob un arwyddion, maent i raddau helaeth oddi ar y ffordd ac mae ganddynt amrywiaeth o wasanaethau i ymwelwyr. Maent o leiaf 40 km o hyd, ac ar y cyd mae'r 26 o lwybrau gwahanol yn cwmpasu dros 2,736 km o lwybrau ledled yr Alban.[85]

### *4.3.4. Mynediad i'r arfordir a dŵr mewndirol*

Ceir wyth 'Great Trail' sy'n caniatáu mynediad i arfordir yr Alban, ond nid oes unrhyw fenter llwybr arfordirol cynhwysol fel yng Nghymru a Lloegr. Mae hawliau mynediad o dan y *Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban)* yn berthnasol i'r holl ddyfroedd mewndirol, oni chânt eu heithrio, gan roi mwy o fynediad i ddyfrffyrdd nac yng Nghymru a Lloegr o dan y *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy* lle nad yw hawliau mynediad yn berthnasol.

---

[83] Paths for All ***Core Paths Plans*** [fel ar 7 Chwefror 2014]
[84] Llywodraeth yr Alban ***Public Access to Land in Scotland-Local Access Forums*** [fel ar 12 Chwefror 2014]
[85] Scottish Natural Heritage ***Scotland's Great Trails*** [fel ar 4 Chwefror 2014]

### 4.3.5. *Cod ymddygiad*

Gellir arfer yr hawl mynediad yn amodol ar y cyfrifoldebau a amlinellir yng *Nghod Mynediad Awyr Agored yr Alban*[86]. Mae'r anhawster o orfodi ymddygiad cyfrifol sy'n gyson â'r Cod yn bryder allweddol i awdurdodau mynediad yr Alban.[87] Mae cyhoeddusrwydd ac addysg yn waith parhaus gan Scottish Natural Heritage er mwyn ceisio atgyfnerthu'r Cod. [88] Er bod y Cod yn rhoi canllawiau ar hawliau mynediad a chyfrifoldebau, nid yw'n ddatganiad awdurdodol o'r gyfraith. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd ar Scottish Natural Heritage i adolygu'r Cod.

## 4.4. *Polisi*

### 4.4.1. *Scottish Natural Heritage: strategaethau a blaenoriaethau*

Mae Scottish Natural Heritage wedi nodi ei strategaethau a'i blaenoriaethau ar gyfer 2012-2015[89] ar gyfer gwella mynediad i gefn gwlad a'r lles sy'n deillio o hynny yn unol â'i Strategaeth Gorfforaethol[90] ac yn gyson â blaenoriaethau cyfredol Llywodraeth yr Alban o ran cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a datblygiad cynaliadwy.

Ceir ffocws cymunedol yn strategaethau'r Scottish Natural Heritage ar gyfer cynyddu'r mynediad i awyr agored. Sefydlwyd 'Paths for All' gan Scottish Natural Heritage yn bartneriaeth o 26 o sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector cyhoeddus a chyrff cynrychioliadol cenedlaethol sy'n ymrwymedig i ddatblygu rhwydweithiau o lwybrau yn yr Alban.[91] Mae'r fenter bellach wedi dod yn ddyletswydd orfodol i awdurdodau lleol. Gweledigaeth 'Paths for All' yw annog pobl sy'n llai egnïol i gerdded mwy, cefnogi cymunedau i ddatblygu llwybrau croesawgar a diogel a hyrwyddo teithio llesol ar gyfer teithiau bob dydd.[92] Mae'n cynnwys mentrau fel 'Local People Local Paths'.[93]

### 4.4.2. *'Scottish Outdoor Access Network'*

Mae 'Scottish Outdoor Access Network' (SOAN)[94] yn cydgysylltu dros 200 o bobl sy'n gweithio ar fynediad awyr agored. Cafodd ei sefydlu fel 'The Scottish Countryside Access Network' (SCAN) yn 1995 gan swyddogion hawliau tramwy, swyddogion prosiect cefn gwlad, ceidwaid cefn gwlad, cynllunwyr cefn gwlad,

---

[86] Scottish Natural Heritage, Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban ***Influencing behaviour and managing people*** [fel ar 4 Chwefror 2014]
[87] Cynulliad Cenedlaethol Cymru ***Access rights and responsibilities – Differences Between England and Wales, and Scotland*** [fel ar 29 Ionawr 2014]
[88] Scottish Natural Heritage, Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban **Influencing behaviour and managing people** [fel ar 4 Chwefror 2014]
[89] Scottish Natural Heritage ***Strategy and Priorities 2012 to 2015*** [fel ar 4 Chwefror 2014]
[90] Scottish Natural Heritage ***Corporate Strategy 2008-2013*** [fel ar 4 Chwefror 2014]
[91] **Paths for All** [fel ar 4 Chwefror 2014]
[92] **Paths for All** [fel ar 4 Chwefror 2014]
[93] Paths for All ***Local People Local Paths*** [fel ar 4 Chwefror 2014]
[94] **Scottish Outdoor Access Network** [fel ar 4 Chwefror 2014]

swyddogion mynediad ac eraill gyda'r nod cychwynnol o rannu cyngor gyda staff mynediad a darparu cymorth ac arweiniad i wneuthurwyr polisi cyn y *Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban)*. Mae SOAN yn parhau gyda'r gwaith hwn ac yn trefnu dau ddigwyddiad rhwydweithio cenedlaethol bob blwyddyn, yn ogystal â gweithdai a digwyddiadau achlysurol ar faterion mynediad amserol.

### *4.4.3. Mapio*

Yng Nghymru a Lloegr mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar awdurdodau lleol i greu ac adolygu Map a Datganiad Diffiniol o hawliau tramwy. Nid yw'n gyfrifoldeb cyfreithiol ar awdurdodau lleol yn yr Alban i gofnodi hawliau tramwy. Mae Scottish Rights of Way and Access Society (Scotways), sef elusen sy'n hyrwyddo mynediad i gefn gwlad yr Alban yn helpu i gofnodi a gosod awryddion hawliau tramwy.[95] Mae Scotways wedi llunio catalog o'r holl lwybrau hysbys yn yr Alban (dros 7,500 o lwybrau) sy'n cynnwys dwy ran: cronfa ddata gyfrifiadurol gyda gwybodaeth am bob llwybr, a mapiau digidol ar raddfa o 1:50,000. [96]

[95] Scottish Rights of Way and Access Society [fel ar 4 Chwefror 2014]
[96] Scottish Rights of Way and Access Society [fel ar 4 Chwefror 2014]

# 5. Gogledd Iwerddon

## *5.1. Mathau o fynediad*

Fel yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, mae hawliau tramwy cyhoeddus yn caniatáu mynediad i gefn gwlad yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae'r rhwydwaith o lwybrau yn sylweddol llai yng Ngogledd Iwerddon (198 km) [97] (Tabl 1). Yn wahanol i Gymru, Lloegr a'r Alban, nid oes hawl wedi'i ffurfioli o ran mynediad agored i dir heb ei amgáu yng Ngogledd Iwerddon ac er bod *Gorchymyn Mynediad i Gefn Gwlad (Gogledd Iwerddon) 1983* yn cynnwys darpariaeth ar gyfer mynediad ehangach i dir agored, nid oes cytundebau na gorchmynion cysylltiedig wedi'u gwneud gan gynghorau dosbarth. Yn gyffredinol, dim ond ar diroedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mewn parciau gwledig, a pharciau coedwigoedd ac ati y mae'r math hwn o 'ryddid i grwydro' ar gael yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, ar lawer o'r tir agored yng Ngogledd Iwerddon, bu mynediad de-facto lle mae tirfeddianwyr wedi anwybyddu'r mater.[98] Mae llwybrau caniataol yn bodoli yng Ngogledd Iwerddon y gall y cyhoedd eu defnyddio.

## *5.2. Y gofynion presennol o ran deddfwriaeth*

### *5.2.1. Gorchymyn Mynediad i Gefn Gwlad (Gogledd Iwerddon) 1983*

Y darn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu mynediad i gefn gwlad yng Ngogledd Iwerddon yw *Gorchymyn Mynediad Gogledd Iwerddon*[99]. Mae'n ei gwneud yn ddyletswydd ar gynghorau dosbarth i arddel, diogelu a chadw unrhyw hawl tramwy cyhoeddus ar agor ac yn rhydd o unrhyw rwystrau neu dresmasu'. Mae hefyd yn ofynnol i gynghorau gadw cofnod o hawliau tramwy cyhoeddus yn eu hardal, gosod arwyddion ar lwybrau, a chyfrannu o leiaf chwarter o'r gost o gynnal a chadw camfeydd a gatiau. Mae gan gynghorau'r hawl i sefydlu hawliau tramwy newydd drwy gytundeb, a gwneud gorchmynion i ddargyfeirio, dileu neu greu llwybrau a chaniatáu codi camfeydd a gatiau newydd. Mae hefyd yn ei gwneud yn gyfrifoldeb ar gynghorau dosbarth gynnig llwybrau hirbell a'r pŵer i sicrhau mynediad i dir agored ar gyfer gweithgareddau hamdden drwy gytundeb neu orchymyn a mapio tir mynediad.

---

[97] Sport NI, ***Bridging the Gap***, Mai 2009 [fel ar 24 Ionawr 2014]
[98] Sport NI ***Policy Position on Access to the Natural Environment in Northern Ireland for Sport and Physical Recreation*** [fel ar 13 Chwefror 2014]
[99] ***Gorchymyn Mynediad i Gefn Gwlad (Gogledd Iwerddon) 1983*** [fel ar 31 Ionawr 2014]

### 5.2.2. *Deddfwriaeth Atebolrwydd Meddianwyr*

Mae gan dirfeddianwyr 'ddyletswydd gofal', tuag at bobl sy'n dod ar eu tir. Mae dau ddarn o ddeddfwriaeth yn effeithio ar y ddyletswydd gofal hon:

- *Deddf Atebolrwydd Meddianwyr (Gogledd Iwerddon) 1957*[100]
- *Gorchymyn Atebolrwydd Meddianwyr (Gogledd Iwerddon) 1987*[101]

### 5.2.3. *Gorchymyn Gwasanaeth Ieuenctid a Hamdden (Gogledd Iwerddon) 1986*

*Mae Gorchymyn Gwasanaeth Ieuenctid a Hamdden (Gogledd Iwerddon) 1986*[102] yn cynnwys creu cytundebau llwybrau caniataol rhwng cynghorau dosbarth a thirfeddianwyr. Gall cynghorau dosbarth gytuno i ddarparu yswiriant i dirfeddianwyr mewn perthynas â'r llwybr.

## 5.3. *Rhoi deddfwriaeth ar waith*

### 5.3.1. *Tir mynediad agored*

Mae *Gorchymyn Mynediad Gogledd Iwerddon* yn cynnwys darpariaeth ar gyfer mynediad i dir agored. Fodd bynnag, hyd yma nid oes unrhyw gytundebau na grchmynion cysylltiedig wedi'u gwneud gan gynghorau dosbarth ac felly nid oes mynediad agored ffurfiol wedi'i weithredu yng Ngogledd Iwerddon.

### 5.3.2. *Mapio*

Fel yng Nghymru a Lloegr, mae cynghorau lleol yn llunio ac yn cadw mapiau o'r hawliau tramwy yn eu hardal, sy'n ddyletswydd o dan *Orchymyn Mynediad Gogledd Iwerddon*.

### 5.3.3. *'Waymarked Ways'*

Fel y soniwyd, mae *Gorchymyn Mynediad Gogledd Iwerddon* yn ei gwneud yn gyfrifoldeb i gynghorau dosbarth gynnig llwybrau hirbell. Gall y llwybr gynnwys cyfansoddiad o amrywiaeth o fathau o fynediad, h.y. hawliau tramwy a llwybrau caniataol presennol. Mae'r cynghorau'n cyflwyno cynigion i Adran yr Amgylchedd a all gymeradwyo, cymeradwyo gydag addasiadau neu wrthod y cynigion. [103]

---

[100] ***Deddf Atebolrwydd Meddianwyr (yr Alban) 1957*** (Pennod 25) [fel ar 31 Ionawr 2014]
[101] ***Gorchymyn Atebolrwydd Meddianwyr (Gogledd Iwerddon) 1987*** Rhif 1280 (G.I. 15) [fel ym mis Ionawr 2014]
[102] ***Gorchymyn Gwasanaeth Ieuenctid a Hamdden (Gogledd Iwerddon) 1986*** Rhif 2232 (G.I. 25) [fel ar 7 Chwefror 2014]
[103] Cynulliad Gogledd Iwerddon, Papur Briffio'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth, ***Access to the countryside in Northern Ireland – occupiers' liability*** Rhagfyr 2012 [fel ar 24 Ionawr 2014]

Mae 'Waymarked Ways' (WW) wedi'u creu ledled Gogledd Iwerddon ac maent yn llwybrau troed hirbell sy'n amrywio rhwng 40 a 65 km. Ar hyn o bryd mae 10 llwybr WW yn bodoli.[104] Mae Llwybr Ulster yn llwybr sydd yn ei hanfod yn mynd o amgylch Gogledd Iwerddon gan ddefnyddio nifer o'r 'Waymarked Ways'.[105] Datblygwyd y fenter WW gan y Countryside Access and Activity Network (CAAN) (Outdoor Recreation NI erbyn hyn[106]) mewn partneriaeth â chynghorau dosbarth a thirfeddianwyr.

### *5.3.4. Mynediad i'r arfordir a dŵr mewndirol*

Mae rhai o'r llwybrau WW, gan gynnwys Llwybr Arfordirol North Down, Llwybr Arfordir The Causeway a Llwybr Lecale yn rhoi mynediad i'r arfordir. Mae'r Council for Nature Conservation and the Countryside (CNCC) wedi argymell yn ei bapur sefyllfa i Lywodraeth Gogledd Iwerddon, y dylai ddatblygu llwybr arfordirol sy'n debyg i Gymru a Lloegr. [107]

Mae mynediad cyfyngedig i ddŵr mewndirol yng Ngogledd Iwerddon. O ganlyniad i hyn, mae Sport NI yn nodi mewn papur sefyllfa y dylai pob dyfrffordd mewndirol fordwyadwy gael mynediad agored ar gyfer hamdden cynaliadwy heb foduron, yn yr un modd â'r amgylchedd morol'.[108]

## *5.4. Deddfwriaeth bosibl yn y dyfodol*

Mae'r CNCC yn nodi bod pryder ynghylch diffyg deddfwriaeth gyfoes ar gyfer mynediad yng Ngogledd Iwerddon, a bod amheuaeth mewn rhai cynghorau dosbarth ynghylch perthnasedd cyfredol yr agweddau ar *Orchymyn Mynediad Gogledd Iwerddon*. [109]

Yn 1999 cynhaliodd Adran yr Amgylchedd ymgynghoriad mynediad a oedd yn gofyn y cwestiwn a ddylid cyflwyno polisi 'hawl i grwydro' yng Ngogledd Iwerddon. Roedd gwrthwynebiad cryf, oherwydd pryder cyffredinol ymhlith tirfeddianwyr y byddai mwy o fynediad yn golygu atebolrwydd cynyddol o dan Ddeddfwriaeth Atebolrwydd Meddianwyr, ac felly diystyriodd Adran yr Amgylchedd y cynnig.

Yn 2007 gwnaed achos ar gyfer adolygiad deddfwriaethol gan y CNCC mewn papur sefyllfa a oedd yn cynnwys 12 o argymhellion. [110] Fodd bynnag, hyd yma nid

[104] Discover NI **Waymarked Ways** [fel ar 13 Chwefror 2014]
[105] The Long Distance Walkers Association ***Ulster Way*** [fel ar 28 Mawrth 2014]
[106] Mae **Outdoor Recreation NI** yn sefydliad ambarél sy'n cyfrannu at y gwaith o ddarparu cyfleusterau cerdded a beicio a marchogaeth ceffylau oddi ar y ffordd, ac mae'n gyfrifol am ddatblygiad strategol a rheoli hamdden yng nghefn gwlad ledled Gogledd Iwerddon.
[107] Council for Nature Conservation and the Countryside, ***Position Paper on access to the Northern Ireland countryside*** 2007 [fel ar 12 Chwefror 2014]
[108] Sport NI ***Policy Position on Access to the Natural Environment in Northern Ireland for Sport and Physical Recreation*** [fel ar 13 Chwefror 2014]
[109] Council for Nature Conservation and the Countryside, ***Position Paper on access to the Northern Ireland countryside*** 2007 [fel ar 12 Chwefror 2014]
[110] Council for Nature Conservation and the Countryside, ***Position Paper on access to the Northern Ireland countryside*** 2007 [fel ar 12 Chwefror 2014]

yw Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth mynediad newydd.

Daeth Adolygiad o Strategaeth Hamdden Cefn Gwlad Sport NI yn 2009 i'r casgliad ei bod yn amlwg fod angen a nodwyd ar gyfer eiriolaeth barhaus i gynyddu'r mynediad i gefn gwlad ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored.[111]

## *5.5. Polisi*

### *5.5.1. Strategaeth Datblygu Rhanbarthol*

Mae Strategaeth Datblygu Rhanbarthol Llywodraeth Gogledd Iwerddon 2025[112] yn ceisio hwyluso cyfleoedd mynediad er mwyn cael ffyrdd o fyw sy'n fwy egnïol. Mae hyn yn cynnwys creu rhwydweithiau o lonydd glas cymunedol mewn dinasoedd a threfi, datblygu rhwydweithiau cerdded a beicio, a hwyluso mynediad i gefn gwlad gan ystyried Strategaeth Hamdden Cefn Gwlad Gogledd Iwerddon[113].

Fframwaith Cynllun Strategol 2016 Cynllun Ardal Ogleddol Adran yr Amgylchedd: Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Gyhoeddus, Cerdded a Beicio yn cyfrannu at amcanion Canllawiau Cynllunio Strategol y Strategaeth Datblygu Rhanbarthol gyda'r nod o ddarparu rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau troed a llwybrau beicio dros ei oes.[114]

### *5.5.2. Y Forest Service*

Mae'r Forest Service yn annog mynediad i goedwigoedd Gogledd Iwerddon, a'r defnydd ohonynt, drwy greu mapiau, aps, canllawiau a llyfrynnau gyda gwybodaeth am deithiau cerdded, llwybrau a gweithgareddau amrywiol. Dyma'r tirfeddiannwr lleol mwyaf gydag ystâd dros ardal eang ledled Gogledd Iwerddon ac sy'n darparu 90% o gyfanswm y tir sy'n eiddo a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored yng Ngogledd Iwerddon.[115]

---

[111] Sport NI, ***Review Countryside Recreation Strategy*** 2009 [fel ar 28 Mawrth 2014]
[112] Adran yr Amgylchedd ***Regional Development Strategy for Northern Ireland 2025*** [fel ar 3 Chwefror 2014]
[113] Y Gweithgor Hamdden Cefn Gwlad ***The Northern Ireland Countryside Recreation Strategy 1998*** [fel ar 31 Ionawr 2014]
[114] Adran yr Amgylchedd ***Northern Area Plan 2016 Strategic Plan Framework: Transportation Public Transport, Walking and Cycling*** [fel ar 6 Chwefror 2014]
[115] CAAN, ***Accessibility of publicly owned land across Northern Ireland for outdoor recreation***, Awst 2010, t67 [fel ar 28 Mawrth 2014]